**Tystiolaeth ysgrifenedig Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol**
**Cefnogi a hybu'r Gymraeg: ymchwiliad i'r cyd-destun deddfwriaethol a pholisi ac yn ehangach**
**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**

## Deddfwriaeth y Gymraeg a threfniadau i hybu'r Gymraeg

### Cyflwyniad

1. Rwy'n croesawu ymchwiliad y Pwyllgor i'r mater hwn, ac yn ddiolchgar am y cyfle i gyfrannu tystiolaeth fel rhan o'r ymchwiliad. Daw'r ymchwiliad ar adeg pwysig yn nyddiau cynnar gweithredu ein strategaeth uchelgeisiol, *Cymraeg 2050,*[1] a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2017.

2. Fel mae nifer o'r tystion sydd wedi cyfrannu i'r ymchwiliad hwn wedi nodi, mae angen i ni hoelio ein golygon yn y maes polisi iaith ar wireddu'r targedau sydd yn y strategaeth:

    - nifer y siaradwyr Cymraeg i gyrraedd 1 miliwn erbyn 2050;
    - canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, i gynyddu o 10 y cant (yn 2013–15) i 20 y cant erbyn 2050.

3. Mae'r  targedau hyn yn fwriadol uchelgeisiol er mwyn creu momentwm ar gyfer gweithio tuag at y nod cenedlaethol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sef *Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu*. Mae'r dyhead i ehangu yn sylweddol y niferoedd sy'n siarad ac yn defnyddio'r Gymraeg yn galw am shifft mewn meddylfryd ac adnoddau er mwyn cyrraedd cydbwysedd gwell rhwng:

    a. rheoleiddio er mwyn rhoi hawliau i siaradwyr Cymraeg presennol;
    b. cynllunio systematig er mwyn tyfu'r niferoedd sy'n caffael y Gymraeg; a
    c. rhaglen o waith i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y teulu, yn gymdeithasol ac mewn gweithleoedd.

4. Fel rhan o'r gwaith hwn, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i adolygu Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ("y Mesur"). Cynhaliwyd *Galwad am dystiolaeth – Paratoi am Fil y Gymraeg* yn gynnar yn 2017,[2] ac ymgynghoriad ar Bapur Gwyn, *Taro'r cydbwysedd iawn: cynigion am Fil y Gymraeg*,[3] yn ail hanner y flwyddyn. Hanfod y cynigion yn y Papur Gwyn oedd dyhead i symleiddio'r system Safonau a sefydlwyd gan y Mesur ac i sefydlu strwythurau addas ar gyfer cyflawni *Cymraeg 2050*, yn benodol o ran cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.

5. Fel bydd Aelodau'r Pwyllgor yn gwybod, ar 1 Chwefror fe gyhoeddais Ddatganiad Ysgrifenedig yn dweud bod y Prif Weinidog, y Cabinet a minnau yn gytûn na ddylem fwrw ymlaen â chyflwyno Bil y Gymraeg ar hyn o bryd. Mae'r papur hwn yn esbonio'r rhesymau am hynny mewn mwy o fanylder.

---

[1] https://beta.llyw.cymru/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg
[2] https://gov.wales/topics/welshlanguage/legislation-for-the-welsh-language/preparing-for-a-welsh-language-bill/?lang=cy
[3] https://beta.llyw.cymru/bil-y-gymraeg-papur-gwyn

**Hybu'r Gymraeg: pwysigrwydd deilliannau a chynllunio ieithyddol**

6. Nid oes unfrydedd ymysg rhanddeiliaid ar sut i ddehongli "hybu'r Gymraeg". Mae Llywodraeth Cymru yn dehongli'r term yn ôl y deilliant yr ydym yn dymuno ei weld, sef i ***gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg***.

7. Mae hyn yn unol ag amcanion *Cymraeg 2050*

    - i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, a
    - cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.

8. Gwireddir yr amcanion hyn drwy ddefnyddio dulliau newid ymddygiad cydnabyddedig sy'n briodol i'r amgylchiadau – annog, gwobrwyo, gorfodi ac yn y blaen. Ond er mwyn llunio ymyraethau ieithyddol effeithlon, rhaid yn gyntaf ymgymryd â chynllunio ieithyddol. Cynllunio ieithyddol sy'n caniatáu i ni ddeall y bygythiadau a'r cyfleon mae'r iaith yn eu hwynebu mewn gwahanol gyd-destunau, a dewis yr ymyraethau mwyaf effeithlon i sbarduno newid.

9. Nid yw'n angenrheidiol felly i ni ddiffinio "hybu" fel rhestr o weithgareddau ond mae'n hanfodol i fedru dangos bod y gweithgareddau yn arwain at ddeilliannau mesuradwy. Mae'n well gan Lywodraeth Cymru ddefnyddio'r term "cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg" am ei fod yn disgrifio'r deilliant yr ydym yn disgwyl ac yn awgrymu dangosyddion y gallwn eu cyfrif fel mesur o effeithlonrwydd polisïau penodol.

**Adolygu'r Mesur**

10. Yn dilyn gostyngiad o 20,000 yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghyfrifiad 2011, roedd yn anochel y byddai'r Llywodraeth yn edrych eto ar ei blaenoriaethau o ran y Gymraeg. Y canlyniad oedd datblygu a chyhoeddi strategaeth newydd *Cymraeg 2050*, adolygu'r Mesur er mwyn sicrhau bod rôl y Comisiynydd a'r system Safonau yn cefnogi amcanion *Cymraeg 2050*, a chynyddu'r gwariant ar y Gymraeg fel rhan o'r cytundeb gyda Phlaid Cymru, o £5 miliwn y flwyddyn.

11. Yn y Papur Gwyn, *Taro'r cydbwysedd iawn*, mae Llywodraeth Cymru yn dadlau bod y pwyslais polisi wedi symud yn rhy bell i gyfeiriad rheoleiddio ar draul gwaith i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Gwneir cynigion yn y Papur Gwyn i symleiddio'r system Safonau a chryfhau'r trefniadau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Mae Llywodraeth Cymru yn glynu wrth y dadansoddiad hwn ond bellach rydym wedi datgan nad ydym yn bwriadu cyflwyno deddf newydd yn y Cynulliad hwn. Mae'r adrannau dilynol yn esbonio'r rhesymau pam nad ydym am ddeddfu a'r gweithredoedd rydym yn eu cynllunio i ymdrin â'r materion a adnabuwyd yn y Papur Gwyn.

**Y system Safonau**

12. Dangosodd y *Galwad am dystiolaeth* gryn anfodlonrwydd ymysg cyrff o dan y Safonau â chymhlethdod a biwrocratiaeth y system. Nodwyd amryw o brosesau cymhleth a hirfaith y gellir eu symleiddio, a gwnaed cynigion i wella'r prosesau hynny. Y prif bryderon yw nifer a chymhlethdod y safonau, sut y mae cwynion yn cael eu trin, a hyd a biwrocratiaeth ymchwiliadau i gwynion.

13. Wedi gwrando ar farn rhanddeiliaid, mewn ymateb i'r Papur Gwyn ac mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor hwn, rydw i bellach o'r farn bod yn well gan y mwyafrif o randdeiliaid barhau â'r system Safonau presennol yn hytrach na gweithredu system newydd . Ni fyddaf felly yn bwrw ymlaen gyda diwygiadau i'r system Safonau mewn deddfwriaeth sylfaenol. Er hynny, rwy'n benderfynol bod rhaid i Lywodraeth Cymru a'r Comisiynydd ymateb i bryderon rhanddeiliaid drwy symleiddio'r ffordd rydym yn gwneud a gorfodi'r Safonau o fewn y ddeddfwriaeth gyfredol.

14. Er enghraifft, mae modd i Lywodraeth Cymru leihau nifer a chymhlethdod y Safonau mewn rheoliadau. Rydym eisoes wedi cymryd camau i'r cyfeiriad yma. Mae'r rheoliadau ar gyfer cyrff iechyd yn cynnwys 121 o Safonau o gymharu â 176 o Safonau ar awdurdodau lleol. Nid yw hyn oherwydd bod y Safonau ar gyrff iechyd yn llai mewn rhyw ffordd, ond oherwydd ein bod wedi gwella'r ffordd rydym yn gweithio, er enghraifft drwy gyfuno Safonau tebyg ac osgoi dyblygu. Credaf bod modd mynd ymhellach.

15. Yn ogystal, mae'r Comisiynydd wedi mynegi awydd i fabwysiadu polisi o gynnal datrysiadau buan o gwynion. Ar gais y Comisiynydd, rydw i wedi ei gynghori bod Llywodraeth Cymru o'r farn nad yw'r Mesur yn ei rhwystro rhag mabwysiadu'r fath bolisi. Gallai hyn gynnwys polisi o gyfeirio cwyn i'r corff dan sylw er mwyn i'r corff hwnnw gael cyfle i ddod i ddatrysiad cyn bod y Comisiynydd yn penderfynu ymchwilio ai peidio. Hyd yn oed mewn achosion ble mae'r Comisiynydd yn credu ei bod yn debygol bod corff wedi methu â chydymffurfio, gall y Comisiynydd ddod i'r casgliad nad ellir cyfiawnhau ymchwiliad ar y sail bod tystiolaeth bod corff wedi newid ei ymddygiad, bod sail y gŵyn wedi ei ddileu a/neu'r defnydd gorau o adnoddau. Mae dyfarniad Tribiwnlys y Gymraeg ym mis Gorffennaf 2018 (TyG/WLT/18/3, paragraff 23) yn berthnasol:[4]

> "Roedd gan y Comisiynydd hawl, yn seiliedig ar ei chred, ar yr adeg berthnasol, bod y cyngor dan sylw wedi newid ei arfer a'u bod felly wedi dileu'r sail dros gwyno, ac ar yr amser a aeth heibio ers derbyn y gŵyn, i benderfynu y byddai ymchwiliad yn golygu gwneud defnydd o adnoddau a fyddai'n anghymesur i unrhyw effaith fuddiol ar ddefnyddwyr y Gymraeg."

16. Mae'n bwysig i nodi na fyddai polisi o'r fath yn effeithio ar hawliau'r achwynydd na phwerau'r Comisiynydd.

---

[4] https://gov.wales/docs/wlt/180903-decision-aled-powell-final.pdf

17. Felly, rwy'n cynnig mai'r egwyddorion y byddwn yn cadw mewn cof wrth weithredu Safonau yn y dyfodol fydd:

    a) cadw'r nifer Safonau ar unrhyw gorff i'r lleiafswm sy'n cyflawni'r nod polisi;
    b) lleihau'r gofynion ar gyrff i gasglu data a pharatoi adroddiadau, oni bai bod rheswm clir am hynny;
    c) y Comisiynydd i weithredu polisi o ddatrysiadau buan er mwyn sicrhau bod achosion o dor-safon yn cael eu hunioni yn gyflym ac er mwyn arbed nifer yr ymholiadau llawn.

18. Bydd gweithredu'r gwelliannau hyn yn gofyn am gyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiynydd o'r materion a godwyd gan yr ymgynghoriad y mae angen gweithredu arnynt, cytundeb am yr egwyddorion a nodir uchod a'r camau y mae'n rhaid i'r ddau gorff eu cymryd, a sut y byddwn yn monitro cynnydd. Gallwn symud ymlaen â'r materion hyn dros y misoedd nesaf.

19. Er nad yw Gweinidogion Cymru yn gallu, nac yn dymuno, roi cyfarwyddyd i'r Comisiynydd wrth arfer ei swyddogaethau rheoleiddio, mae'n ofynnol arnom i sicrhau bod y cyrff rydym yn eu hariannu yn gweithredu yn y modd mwyaf effeithiol ac effeithlon. Byddaf yn disgwyl i'r Comisiynydd feincnodi ei berfformiad fel rheoleiddiwr yn erbyn cyrff eraill sy'n ymchwilio i gwynion, megis Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ac adrodd ar hynny yn ei adroddiad blynyddol.

**Effaith y Safonau – y defnydd o wasanaethau Cymraeg**

20. Mae adroddiadau'r Comisiynydd yn nodi gwelliannau mewn darpariaeth gwasanaethau yn y Gymraeg ac ymwybyddiaeth ohonynt, diolch i'r Safonau e.e.

    > Roedd 76% o'r rhai a holwyd o'r farn fod gwasanaethau Cymraeg sefydliadau cyhoeddus yn gwella, a 98% o siaradwyr Cymraeg yn ymwybodol fod ganddynt hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg.[5]

21. Eto i gyd, prin yw'r dystiolaeth bod y Safonau wedi llwyddo i arwain at mwy o ddefnydd o'r Gymraeg gan y cyhoedd wrth ddefnyddio gwasanaethau. Mae hyn yn fater o bryder gan fod gwerth y Safonau nid yn unig yn yr hawliau y maent yn rhoi i bobl, ond yn y defnydd a wneir o'r hawliau hynny a'u heffaith ar ddewisiadau'r cyhoedd.

22. Mae'r ychydig dystiolaeth sydd gennym ar gael yn adroddiadau blynyddol y cyrff o dan y Safonau. Gweler, er enghraifft, adroddiadau blynyddol awdurdodau lleol ar gyfer 2017/18:

    <u>Cyngor Abertawe (11.4% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg)</u>:[6]

---

[5] Ymateb y Comisiynydd i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/20171030%20LL%20C%20Ymateb%20Papur%20Gwyn%20CYG%20.pdf

- 1,676 galwad yn Gymraeg i'r switsfwrdd a'r Ganolfan Alwadau Gorfforaethol allan o gyfanswm o 435,657 galwad, sef 0.4%;
- 1,866 galwad ffon yn Gymraeg i'r Is-adran Refeniw a Budd-daliadau allan o gyfanswm o 151,173 galwad, sef 0.12%.

<u>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (12.9% yn siarad Cymraeg)</u>:[7]

- 1,387 galwad neu ymweliad yn Gymraeg i'r Ganolfan Gyswllt allan o gyfanswm o 250,952 galwad/ymweliad, sef 0.6%, o gymharu a 0.5% yn 2016/17 a 0.1% yn 2015/16;
- 11,613 o drafodiadau ('transaction') ar y wefan yn Gymraeg allan o gyfanswm o 1,318,807 o drafodiadau, sef 0.9%, fawr o newid o 1% yn y ddwy flynedd flaenorol.

<u>Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (9.7% yn siarad Cymraeg)</u>:[8]

- 5 ymadwaith wyneb yn wyneb yn Gymraeg yn y Ganolfan Gyswllt Cwsmeriaid allan o gyfanswm o 26,578 ymadwaith, sef 0.02%;
- 301 galwad Cymraeg i'r Ganolfan Gyswllt Ffôn allan o gyfanswm o 160,528 galwad, sef 0.2%.

<u>Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot (15.3% yn siarad Cymraeg)</u>:[9]

- 1,303 galwad yn Gymraeg i'r prif rif ffôn allan o gyfanswm o 125,094 galwad, sef 1%;
- 24,192 trawiad ('hit') ar dudalennau Cymraeg y wefan allan o gyfanswm o 2,845,526 trawiad, sef 0.9%, o gymharu â 0.8% y flwyddyn flaenorol.

23. Mae'n bosibl nad yw'r dystiolaeth yma yn hollol ddibynnol. Mae'r sampl yn fach – dim ond 4 allan o 22 awdurdod lleol sy'n adrodd ar ddefnydd gwasanaethau – ac mae posibilrwydd bod yr achosion hyn yn anarferol mewn rhyw ffordd. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl anwybyddu'r dystiolaeth hon nes bod data mwy cyflawn am ddefnydd gwasanaethau Cymraeg ar gael. Byddaf yn disgwyl i'r Comisiynydd flaenoriaethu'r dasg o adnabod set o fesurau cymharol ar gyfer defnydd gwasanaethau Cymraeg awdurdodau lleol a chasglu'r data hyn ac adrodd arnynt yn flynyddol, yn dechrau gyda'r flwyddyn ariannol nesaf, 2019/20. Byddaf yn disgwyl i'r Comisiynydd wneud yr un peth ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol unwaith bod y Safonau yn weithredol arnynt.

24. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y ddadl gyffredinol y bydd e'n cymryd amser i argaeledd gwasanaethau yn y Gymraeg drwy'r Safonau gael effaith ar ymddygiad y cyhoedd. Rydym hefyd yn derbyn y ddadl bod y Safonau yn gwneud cyfraniad pwysig at Gymreigio gweithleoedd a sefydliadau drwy godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y Gymraeg a'i statws swyddogol.

---

[6] https://www.abertawe.gov.uk/cymraeg
[7] https://www.wrexham.gov.uk/welsh/council_w/documents/welsh-language-standards.htm
[8] https://www.bridgend.gov.uk/cy/fy-nghyngor/cydraddoldeb-ac-ymgysylltu/y-gymraeg/
[9] https://www.npt.gov.uk/1507?lang=cy-gb

25. Fodd bynnag, mae'n glir bod cyfraniad y Safonau at gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan y cyhoedd yn gyfyngedig ac mai canran fechan o siaradwyr Cymraeg sy'n dewis defnyddio gwasanaethau Cymraeg ar hyn o bryd. Mae newid arferion siaradwyr Cymraeg yn hyn o beth yn flaenoriaeth. Byddaf yn disgwyl i'r Comisiynydd fuddsoddi mewn gweithredoedd i gynyddu'r defnydd o wasanaethau Cymraeg gan y cyhoedd, er mwyn ategu'r ymdrechion a wneir gan y cyrff eu hun, boed o dan y Safonau neu beidio, ac i adrodd ar lwyddiant y gweithredoedd hynny yn ei adroddiad blynyddol.

**Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg**

26. Mae rhai rhanddeiliaid wedi dadlau dros sefydlu corff neu asiantaeth newydd i hybu'r Gymraeg. Nid yw Llywodraeth Cymru yn derbyn y dadleuon hyn, ar sail cymhlethdod ac effeithlonrwydd. Byddai corff ychwanegol sy'n gweithredu ym maes hybu'r Gymraeg yn creu dryswch i'r cyhoedd gyda risg uchel o ddyblygu swyddogaethau. Byddai hefyd yn creu costau a gorbenion ychwanegol, gan dynnu arian prin o raglenni a gwasanaethau byddai o fudd uniongyrchol i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.  Mae'n bwysig bod y cyrff  sydd yn gorfod cydymffurfio gyda'r safonau yn gweld Swyddfa'r Comisiynydd fel corff a fydd yn gallu rhoi arweiniad a chyngor i sicrhau eu bod nhw yn gallu cydymffurfio â'r safonau yn hytrach na fel plismyn ieithyddol yn unig.

27. Yn y Papur Gwyn, ein pryder am roi cyfrifoldebau ehangach am hybu'r defnydd o'r Gymraeg i'r Comisiynydd oedd trefniadaeth llywodraethiant y corff, sef corfforaeth undyn ("corporation sole") yn hytrach na chorfforaeth gyfun ("coporation aggregate"). Mae'r Mesur yn sicrhau annibyniaeth y Comisiynydd mewn perthynas â'i swyddogaethau rheoleiddio ac mae hynny'n hollol addas. Nid yw'r un dadleuon yn dal dŵr yng nghyd-destun swyddogaethau cyffredinol y Comisiynydd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, am y rhesymau canlynol.

28. Rhaid i unrhyw gorff sy'n arwain ar gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg weithio mewn partneriaeth a harneisio egni yr holl gyrff, cymunedau ac unigolion sy'n gweithio er budd y Gymraeg. Rhaid iddo weithio mewn ffordd dryloyw (er enghraifft, lle bod cyrff yn dibynnu ar benderfyniadau'r corff am grant) a chynhwysol (drwy dynnu ar ddoniau, arbenigedd a chyngor eraill), a rhaid iddo feithrin perthynas cyfoethog ac ystyrlon â phobl Cymru. Nid yw'n glir i mi fod y Comisiynydd yn cwrdd â'r gofynion yma ar hyn o bryd. Dyna'r rheswm i ni gynnig sefydlu Comisiwn fel corfforaeth gyfun, yn tynnu ar ystod o arbenigedd a chyda gorwelion ehangach na rheoleiddio Safonau. Fodd bynnag, mae'n glir nad oes cytundeb ymysg rhanddeiliaid â'r cynnig yma. Dyma un o'r rhesymau yma, rwyf wedi penderfynu peidio bwrw ymlaen gyda'r cynnig i sefydlu Comisiwn. Rhaid i'r Comisiynydd weithio mewn ffordd dryloyw a chynhwysol ac er mwyn sicrhau nad oes gormod o bŵer mewn dwylo un unigolyn. Rydym yn credu bod angen edrych ar drefniadau llywodraethiant y Comisiynydd. Mae hyn yn rhywbeth y byddwn yn trafod gyda'r Comisiynydd newydd.

29. Mae trafodaethau diweddar gyda'r Comisiynydd cyfredol a thrafodaethau cynnar gyda'r Comisiynydd newydd yn peri i mi gredu bod modd cymryd camau sylweddol er mwyn ymdrin â'r materion perthnasol o dan y ddeddfwriaeth bresennol. Mae'n werth nodi bod y Comisiynydd yn dweud yn ei hymateb i'r Papur Gwyn (2.10), "credaf bod Opsiwn 2, sef Comisiynydd y Gymraeg gyda Bwrdd Llywodraethu yn cynnig y cysondeb a'r eglurder sydd ei angen tra'n datblygu trefniadau atebolrwydd".

30. Yr her rwy'n ei gosod i'r Comisiynydd felly yw i roi trefniadau llywodraethiant tryloyw a chynhwysol yn eu lle, megis Bwrdd Llywodraethu gyda chyfrifoldebau clir a phendant, fel cam rhagarweiniol hanfodol er mwyn paratoi'r corff ar gyfer cymryd cyfrifoldeb a bod yn atebol am weithredu rhaglenni o waith i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Ni fydd hyn yn effeithio ar annibyniaeth y Comisiynydd wrth weithredu ei swyddogaethau rheoleiddio.

31. Os wyf yn hyderus bod y Comisiynydd wedi cwrdd â'r amodau hyn dros y flwyddyn nesaf, byddaf yn barod i ystyried trosglwyddo nifer o gyfrifoldebau, ynghyd â'r adnoddau sydd ynghlwm wrthynt, o Lywodraeth Cymru i law'r Comisiynydd. Bydd hyn yn gosod y seiliau er mwyn galluogi'r Comisiynydd i gyflawni ei brif nod o hybu a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn ffordd fwy cynhwysfawr a chytbwys. Rwy'n ffyddiog nad oes gwrthdaro rhwng swyddogaethau rheoleiddio a hybu ac, yn wir, mae'r Mesur yn gwneud hynny yn glir wrth ddatgan "*Prif nod y Comisiynydd wrth arfer ei swyddogaethau yw hybu a hwyluso defenydio'r Gymraeg"* (adran 3(1).

32. Wrth ystyried pa gyfrifoldebau y gellir eu trosglwyddo os cwrddir â'r amodau rwyf wedi gosod uchod, rhaid cael eglurder yn gyntaf am gyfrifoldebau priodol Llywodraeth Cymru a'r Comisiynydd. Y man cychwyn yw ein strategaeth, *Cymraeg 2050,* a'r cyfraniad gorau y gall y naill corff a'r llall ei wneud tuag at gyflawni ein hamcanion. Yr egwyddor sylfaenol yw mai Llywodraeth Cymru sy'n arwain ar Thema 1 *Cymraeg 2050* (cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg) a Thema 3 (creu'r amodau ffafriol i'r Gymraeg), a'r Comisiynydd ddylai fod yn bennaf gyfrifol am arwain ar Thema 2 (cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg). Gan fod y themâu hyn yn gorgyffwrdd, bydd rhaid trafod y manylion gyda'r Comisiynydd, cymryd cyngor y Cyngor Partneriaeth, a gwrando ar farn rhanddeiliaid ehangach – gan gynnwys ystyried adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu – cyn gwneud penderfyniadau terfynol.

33. Fodd bynnag, hoffwn ddweud ar y cychwyn mai un o'r blaenoriaethau pwysicaf fydd cryfhau cynllunio ieithyddol rhanbarthol a lleol, a'r pwyslais rwy'n rhoi ar gynllunio ieithyddol fel sail rhesymegol i lunio polisïau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Mewn nifer o ffyrdd pwysig, mae llwyddiant *Cymraeg 2050* yn nwylo cymunedau lleol, mudiadau lleol ac awdurdodau lleol. Mae *Cymraeg 2050* yn strategaeth genedlaethol heriol ac uchelgeisiol, a rhaid adlewyrchu'r uchelgais honno yn y strategaethau lleol a gwaith partneriaethau lleol. Er enghraifft, yn aml nid oes ond cysylltiad bregus rhwng y strategaethau hynny a'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Mae Aled Roberts, y Comisiynydd nesaf, mewn sefyllfa unigryw i fynd i'r afael â'r maes hwn, ar sail ei brofiad o adolygu'r cylch diweddaraf o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

34. Mae codi safon cynllunio ieithyddol lleol a rhanbarthol yn gam hanfodol i wireddu uchelgais *Cymraeg 2050.* Fe fydd y llywodraeth yn trafod gyda'r Comisiynydd a rhanddeiliaid eraill pa gamau ychwanegol sydd angen eu cymryd er mwyn ychwanegu at y gwaith cynllunio ieithyddol a phwy ddylai gael y prif gyfrifoldebau dros hyn.

**Y sector preifat**

35. Mae'r Mesur presennol yn caniatáu i ni osod Safonau ar rai rannau o'r sector preifat, sef y cwmnïau sy'n gweithredu mewn rhai marchnadoedd cyfleustodau oedd gynt yn ran o'r sector cyhoeddus, e.e. dŵr, nwy a thrydan, telegyfathrebu, bysus a threnau, Swyddfa'r Post a'r Post Brenhinol ayyb. Nid yw'r rhestr yma yn cynnwys banciau.

36. Rwyf wedi datgan y byddwn yn ail-gychwyn y rhaglen o wneud rheoliadau Safonau. Nid wyf am wneud addewidion am yr amserlen ar gyfer gwneud rheoliadau ar hyn o bryd oherwydd yr ansicrwydd sy'n parhau o gwmpas Brexit a'r effaith bosib ar amserlen fusnes y Llywodraeth.

37. Gan nad ydym bellach am wneud deddfwriaeth sylfaenol, ni fydd yn bosibl ehangu'r Safonau i rannau eraill o'r sector preifat, megis banciau ac archfarchnadoedd. Fydd hyn ddim yn ein rhwystro ni rhag dyblu ein hymdrechion a gosod allan yn glir ac yn syml beth yw ein disgwyliadau o'r sectorau hyn a'u gwthio'n galed i wneud mwy. Y Comisiynydd sydd wedi arwain ar y gwaith yma yn y gorffennol ac mae'n flaenoriaeth bod y gwaith hwnnw'n parhau, gyda chefnogaeth lawn Llywodraeth Cymru.

**Tribiwnlys y Gymraeg**

38. Nododd y Papur Gwyn rai newidiadau hanfodol sydd eu hangen i gywiro diffygion yn y Mesur, er enghraifft, o ran materion megis penodi, disgyblu a diswyddo aelodau'r Tribiwnlys. Mae'r newidiadau hyn yn deillio o ohebiaeth a fu rhwng yr Arglwydd Brif Ustus a Phrif Weinidog Cymru amser pasio'r Mesur, a chreu swydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru o dan Ddeddf Cymru 2017. Y mae angen deddfwriaeth sylfaenol i wneud newidiadau i drefniadau a phwerau'r Tribiwnlys.

39. Ar 23 Gorffennaf 2018, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru y bydd Comisiwn y Gyfraith yn ymgymryd â phrosiect newydd i adolygu'r gyfraith sy'n llywodraethu gweithrediad tribiwnlysoedd datganoledig Cymru a gwneud awgrymiadau i'w diwygio.[10] Bydd y prosiect yn ystyried materion megis penodiad a disgyblaeth barnwyr ac aelodau eraill o Dribiwnlysoedd, a phenodi Llywyddion/Dirprwyon. Bydd y prosiect yn ystyried materion yn ymwneud â Bil Tribiwnlysoedd newydd i Gymru, wedi'i lunio i reoleiddio gweithrediad un

[10] https://beta.llyw.cymru/node/6333

system unigol ar gyfer tribiwnlysoedd Cymru. Rwy'n rhagweld y gellir ymdrin â materion yn ymwneud â Thribiwnlys y Gymraeg yn y Bil hwnnw, os y'i cyflwynir maes o law.

40. Yn y cyfamser, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau gyda'r trefniadau ymarferol sydd ar waith ar hyn o bryd.

**Adolygu cynnydd**

41. Mae'r papur hwn yn gosod allan y sail i bartneriaeth newydd rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiynydd er mwyn delio gyda'r materion a nodwyd yn y Papur Gwyn ac er mwyn sicrhau ein bod ni yn gweithio'n effeithlon tuag at gyrraedd yr amcanion yn *Cymraeg 2050*.

42. Rwy'n bwriadu cynnwys y blaenoriaethau a adnabuwyd ac unrhyw flaenoriaethau pellach a adnabyddir mewn trafodaethau rhyngom mewn Cytundeb Fframwaith rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiynydd. Bydd y Cytundeb Fframwaith yn cael ei adolygu yn ein cyfarfodydd chwarterol rheolaidd.

43. Byddaf yn monitro'r cynnydd dros weddill y Cynulliad hwn ac yn adrodd arno maes o law yn ein hadroddiadau blynyddol *Cymraeg 2050*.